



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Cartref Gofal Hafan y Coed

**Nightingale Court
Llanelli
SA15 1HU**

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

15/07/2024

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.

Cewch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Cartref Gofal Hafan y Coed

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth Cartref Gofal Gofal â Nyrsio i Oedolion
Darparwr Cofrestredig	Barchester Healthcare Homes Limited
Lleuedd cofrestredig	107
Iaith y gwasanaeth	Saesneg
Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	21/12/2022
A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru?	Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

Crynodeb

Mae iechyd a llesiant y bobl yn eithriadol o bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal a chymorth yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol o'r unigolyn, ei anghenion a'r hyn sy'n bwysig iddo. Mae'r unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon sy'n cael effaith wirioneddol a chadarnhaol arnyn nhw a'u perthnasau. Mae'r bobl, eu teuluoedd a gweithiwr iechyd proffesiynol sy'n ymweld yn canmol Hafan y Coed yn fawr iawn.

Mae'r bobl yn cael gwasanaeth o ansawdd uchel a ddarperir gan reolwr ysbrydoledig ac ymroddedig a thîm ymroddedig o staff. Caiff y rheolwr ei gefnogi'n dda gan dîm uwch-reolwyr y sefydliad a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwyllo'r gwasanaeth mewn ffordd gadarn drwy ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau archwilio ansawdd a'i ymweliadau statudol.

Mae'r gwasanaeth yn darparu amgylchedd diogel i'r bobl fyw ynddo ac ar y cyfan, mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Gellid gwella rhai o'r toiledau cymunedol er mwyn diwallu anghenion y bobl ag amhariad ar eu golwg yn well. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith.

Llesiant

Caiff dewisiadau a barn y bobl eu cydnabod. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn gofyn barn y bobl a'u perthnasau yn ystod ei ymweliadau rheoliad 73 â'r gwasanaeth. Mae'r cofnodion gofal yn cynnwys gwybodaeth fanwl iawn am anghenion a dewisiadau'r unigolyn ac yn rhoi ymdeimlad gwirioneddol ohono. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn gwneud cyfraniad gweithredol at y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Mae'r bobl yn codi ac yn mynd i'r gwely pan fyddant am wneud hynny a gallant ddewis o blith amrywiaeth o opsiynau prydu. Mae'r bobl yn cyfathrebu yn Gymraeg os mai dyna yw eu dewis iaith.

Mae'r bobl yn gwneud pethau sy'n bwysig iddynt. Mae'r unigolion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobiau a chyfleoedd hamdden ystyrlon sy'n bwysig iddynt ac sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu bywydau.

Mae'r bobl yn cael eu hamddiffyn rhag y risg o niwed a chamdriniaeth. Mae'r bobl a'u teuluoedd yn gallu codi pryderon ac yn teimlo'n ddiogel yn byw yn Hafan y Coed. Mae'r gweithwyr gofal yn deall eu cyfrifoldebau i ddiogelu'r bobl rhag niwed. Mae'r gweithdrefnau recriwtio a dethol yn gadarn. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd, arfarniad blynyddol a chymorth parhaus sy'n sicrhau bod y rhai hynny sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn meddu ar y sgiliau cywir a'u bod yn rhoi gofal mewn ffordd briodol. Mae'r gwasanaeth yn gweithio mewn ffordd ragweithiol â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol er mwyn sicrhau bod y bobl yn cadw mor iach â phosibl. Mae'r tîm o staff yn cael hyfforddiant gorfodol ac arbenigol er mwyn sicrhau y gallant ddiwallu anghenion gofal a chymorth cymhleth unigol y bobl. Caiff y staff eu cefnogi gan bolisiâu a gweithdrefnau sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd.

Gofal a Chymorth

Caiff y bobl y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i ddiwallu eu hanghenion unigol. Mae'r cofnodion gofal yn fanwl iawn, yn canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, felly hefyd yr asesiadau risg cysylltiedig. Mae'r bobl a/neu eu cynrychiolwyr yn cael eu cynnwys yn y broses o gynllunio ac adolygu eu gofal. Caiff gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu cynnwys mewn ffordd ragweithiol pan fo angen hynny ar y bobl. Caiff hyn ei ddogfennu'n dda yn y cofnodion gofal.

Mae'r bobl a'u perthnasau yn teimlo eu bod yn cael y gofal sydd ei angen arnynt ac maent yn canmol y staff; gwnaethant ddweud wrthym; *“the carers are wonderful”, “I am well looked after, the carers are very kind”, “I am very happy with the care of my husband. The staff are good at keeping me informed of any incidents and changes in his care. They are lovely. I know he is safe here”* and *“I am very happy with the care of my mother; the carers are very kind and caring. If I have any concerns I can speak to the manager. They know my mother”*. Mae'r arsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r bobl yn dangos caredigrwydd y staff a chymaint y mae'r bobl sy'n byw yn Hafan y Coed yn ei olygu iddynt.

Mae'r staff yn wybodus ac yn awyddus i helpu'r bobl i gael bywyd o'r ansawdd gorau. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym, *“I really enjoy working here, it's like a family here”* ac *“we are here to give the best we can for the residents, to make their days special”*. Caiff amrywiaeth o dechnegau cyfathrebu eu defnyddio i gyfathrebu â'r bobl sydd ag anghenion mwy cymhleth. Mae awgrymiadau ar gyfer sut i ddechrau sgwrs wedi'u harddangos mewn cymylau ar waliau ystafelloedd gwely'r bobl sydd ag anawsterau cyfathrebu mwy cymhleth. Mae'r arddangosfeydd cwmwl hyn yn cynnig themâu allweddol i'r staff gofal, sy'n bwysig i'r unigolion, er mwyn helpu'r staff i ddechrau sgwrs â nhw. Mae'r staff hefyd yn cyfathrebu yn Gymraeg os mai dyma yw dewis iaith yr unigolyn.

Mae gweithgareddau ystyrlon yn chwarae rôl werthfawr wrth gefnogi ac annog y bobl i fyw bywydau llawn a boddhaus. Mae'r bobl wedi cael eu cefnogi i fynd ar deithiau i ddilyn eu diddordebau, gan gynnwys ymweld â phwll glo lleol, cymryd rhan yng nghôr y gwasanaeth, mwynhau eu hangerdd dros geir clasurol a chyfrannu at y “Clwb Pwdin”, sef clwb coginio a phobi i bobl ag amrywiaeth o sgiliau. Mae tystiolaeth ddogfennol a ffotograffig yn dangos faint o bleser y mae'r bobl yn ei gael o'r gweithgareddau hyn. Dywedodd un unigolyn *“I enjoyed the day out; It was something different. We were shown how to mix and make different cocktails, I only tasted the non-alcoholic ones. There were five residents and three staff. It was lovely!”* Ar ben hynny, mae'r perthnasau hefyd yn cael llawer o bleser o fwynhad eu hanwyliaid. Gwelsom y bobl yn gwyllo fideo am y farchnad leol, yn chwarae bowlïo rhithwir ac yn ymlacio wrth gael tylino pen.

Yr Amgylchedd

Caiff risgiau i iechyd a diogelwch y bobl eu lleihau. Cynhelir amrywiaeth o wiriadau ac archwiliadau cynnal a chadw cynhwysfawr. Caiff y cyfarpar diffodd tân a'r cyfarpar symud a chodi a chario eu profi a'u gwasanaethu o fewn yr amserlenni gofynnol. Mae Cynlluniau Personol ar gyfer Gwagio'r Adeilad mewn Argyfwng (PEEP) wedi'u teilwra ar gyfer pob unigolyn ac ar gael yn hawdd.

Mae'r ardaloedd cymunedol a'r allanfeydd argyfwng yn daclus ac nid oes unrhyw beryglon yn yr ardaloedd hynny. Caiff sylweddau peryglus i iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel. Caiff systemau mynediad bysellbad eu defnyddio lle yr ystyrir bod eu hangen ac mae'n ofynnol i bob ymwelydd lofnodi wrth fynd i mewn ac allan o'r gwasanaeth. Mae cortynnau tynnu a larymau argyfwng yn hawdd i'r bobl eu cyrraedd i'w defnyddio ac mae'r staff yn ymateb iddynt mewn modd amserol. Mae'r staff cadw tŷ yn gweithio'n galed i sicrhau bod y gwasanaeth yn lân heb unrhyw arogleuon.

Ar y cyfan, gwelsom fod y bobl yn cael eu cefnogi i gyflawni eu canlyniadau personol. Caiff y gerddi cymunedol eu cynnal a'u cadw'n dda ac maent yn ddiogel i'r bobl eu defnyddio a'u mwynhau. Mae amrywiaeth o blanhigion, blodau a llwyni wrth y brif fynedfa i groesawu pobl i'r gwasanaeth. Mae'r ystafelloedd ymolchi cymunedol yn lân ac yn ddymunol i'r bobl eu defnyddio. Fodd bynnag, gellir gwella rhai o'r toiledau cymunedol drwy ystyried y dodrefn a'r goleuadau yn y toiledau er mwyn cefnogi pobl ag amhariad ar eu golwg yn well.

Mae'r coridorau ym mhob un o'r cymunedau yn unigryw ac yn cynnwys lluniau, gwaith celf ac arddangosiadau i'r bobl eu mwynhau a rhyngweithio â nhw. Gall hyn helpu'r bobl i ddod o hyd i'w hystafelloedd gwely a'r ardaloedd cymunedol. Caiff arddangosiadau ac arwyddion dwyieithog eu defnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaeth.

Caiff yr ystafelloedd gwely eu personoli yn unol â dewisiadau'r bobl, gan gynnwys lluniau, ffotograffau, ornamentau ac eitemau o ddodrefn. Mae'r lolfeydd cymunedol a'r ystafelloedd bwyta wedi cael eu haddurno a'u dodrefnu'n dda ac maent yn groesawgar i'r bobl eu defnyddio a chymdeithasu ynddynt. Mae rhaglen adnewyddu barhaus ar waith.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu cadarn ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn cynnal ymweliadau Rheoliad 73 â'r gwasanaeth yn unol â'r amserlenni gofynnol. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) wedi cael copïau o adroddiadau sy'n dangos bod yr Unigolyn Cyfrifol yn siarad â'r bobl, eu cynrychiolwyr a'r staff fel rhan o'i ymweliadau â'r gwasanaeth. Cadarnhawyd hyn gan y staff a'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth. Mae'r timau rheoli yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau monitro ansawdd ac archwiliadau. Caiff y camau sy'n deillio o'r archwiliadau hyn eu rhoi ar waith a'u hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r rheolwr ysbrydoledig yn cael ei barchu'n fawr gan y timau o staff a'r uwch-reolwyr yn Hafan y Coed a'r sefydliad. Caiff angerdd y rheolwyr dros ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn Hafan y Coed ei adlewyrchu yn y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ystod cyfnod yr arolygiad. Dywedodd y staff wrthym *"I think the manager is excellent, she knows all the residents, their family members, staff by name, she is fantastic at her role. She has a real skill in bringing the team together and making sure she gets the best out of them"* a *"[rheolwr] is lovely, a real leader and inspiration"*.

Mae'r bobl a'u teuluoedd yn canmol y tîm reoli a'r staff yn fawr iawn, gan ddweud *"This is an amazing place, the staff are excellent and so is [rheolwr]. I've seen her [rheolwr] mopping the floors before now she is so dedicated and hardworking. The carers don't just care for my mother, they are caring"* a *"the carers are lovely, they look after me so well, nothing is too much trouble for them"*. Dywedodd gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymweld wrthym *"[rheolwr] is a tornado! The care staff are very good, care records are good. The care staff are very kind and appear to genuinely care for the residents"*.

Mae prosesau recriwtio a dethol trylwyr ar waith. Mae cofnodion y staff yn cynnwys yr holl wiriadau a chliriadau gofynnol sydd ar waith cyn i aelod o staff ddechrau gweithio. Mae'r staff yn ymgymryd â phroses sefydlu gynhwysfawr yn unol â'u rôl a statws eu swydd. Mae'r gweithwyr gofal yn cael sesiynau goruchwylio rheolaidd ac arfarniad blynyddol. Mae pob aelod o'r staff yn ymgymryd ag amrywiaeth o hyfforddiant gorfodol ac arbenigol er mwyn gallu cefnogi'r bobl y mae ganddynt weithiau anghenion cymhleth. Dywedodd y gweithwyr gofal wrthym am yr amrywiaeth o hyfforddiant y maent wedi'i gael a manteision hynny iddyn nhw ac i'r bobl sy'n cael cymorth ganddynt. Mae matrices hyfforddiant a chofnodion gofal y gwasanaeth yn cadarnhau hyn. Mae pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw yn dangos dealltwriaeth glir o'i rôl wrth amddiffyn unigolion.

Mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'i Ddatganiad o Ddiben a chaiff hysbysiadau ar-lein eu cyflwyno i AGC yn unol â'r gofynion.

Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf.
Heb Gyflawni	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni.

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni hyn, a byddwn yn ystyried y mater hwn eto yn ystod yr arolygiad nesaf.

Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Dd/G	Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn	Dd/G

A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- [Arolwg adroddiadau arolygu](#)

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n [tudalen Arolygon adborth](#).

Dyddiad Cyhoeddi 04/09/2024